## Awgrymiadau da ar gyfer gwella eich effeithlonrwydd

## Datblygu System Rheoli Amgylcheddol

**Bydd System Rheoli Amgylcheddol yn diffinio cyfrifoldebau amgylcheddol staff a'u helpu nhw i ddeall effaith eu gweithrediadau. Bydd eich System Rheoli Amgylcheddol:**

- yn helpu i leihau effeithiau a chofnodi perfformiad yn erbyn targedau a osodir ar gyfer eich busnes.
- yn gallu cael ei harchwilio (bydd yn cael ei harchwilio os cewch eich ardystio'n allanol), a bydd yn eich helpu chi i leihau gwastraff a chostau cysylltiedig, ac.
- yn sicrhau bod gwelliannau'n parhau trwy ddatblygu a monitro'r system yn barhaus, a bod y staff ar bob lefel yn chwarae eu rhan.

- Fel arfer, am gost fach iawn neu heb unrhyw gost, gall busnesau arbed o leiaf 1 y cant o'u trosiant trwy wella eu heffeithlonrwydd adnoddau. Bydd gwella eich effeithlonrwydd adnoddau yn:
  - lleihau eich gorbenion a chynyddu eich proffidioldeb
  - eich helpu chi i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd, diogelwch ac amgylcheddol
  - gwella eich delwedd gyda chwsmeriaid, gweithwyr a'r gymuned leol, a
  - gwella eich gweithle a'r amgylchedd lleol.
- Mae sawl dull o weithredu System Rheoli Amgylcheddol ffurfiol. Gallwch ddatblygu eich system eich hun yn fewnol, dilyn canllawiau'r Safon Ryngwladol (ISO 14001), Cynllun Eco-reoli ac Archwilio'r Comisiwn Ewropeaidd (EMAS), neu'r Safon Brydeinig (BS 8555) ar gyfer busnesau bach a chanolig.
- Gallwch chi hefyd benderfynu i ddilyn ardystiad ffurfiol ar gyfer y safonau hyn neu beidio.
- I weithredu System Rheoli Amgylcheddol, mae arnoch angen:
  - gwybodaeth dda am arferion ac effeithiau amgylcheddol eich sefydliad, a
  - sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a gwelliannau.
- Cyn i chi roi System Rheoli Amgylcheddol ar waith, dylech gyflawni gweithgaredd 'mapio gwastraff' i'ch helpu chi i ddeall sut rydych chi'n defnyddio adnoddau a ble mae gwastraff yn cael ei greu. Mae'r canllaw cam wrth gam WRAP Waste Mapping – Your Route to More Profit wedi cael ei ddylunio i fod yn gyflwyniad at mynd i'r afael â gwastraff adnoddau a bod yn fwy effeithlon o ran adnoddau. Ewch i https://www.yumpu.com/en/document/read/47597908/waste-mapping-your-route-to-more-profit-wrap
- Ewch i https://wrap.org.uk/

Llywodraeth Cymru
Welsh Government